GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5 (FFORDD OSGOI'R WAUN, BWRDEISTREF SIROL WRECSAM) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2021

Mae Gweinidogion Cymru gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A5, neu gerllaw iddi, wrth Ffordd Osgoi'r Waun, Wrecsam.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. gwahardd pob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith), beicwyr a cherddwyr rhag mynd ar hyd y darn o Ffordd Osgoi'r Waun rhwng ffin Cymru/Lloegr a Chylchfan Halton.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd o Gylchfan y Gledryd fydd mynd ar y B5070 Chirk Road tua'r gogledd ac ar yr A5 tua'r dwyrain i ailymuno â'r gefnffordd wrth Gylchfan Halton: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de o Gylchfan Halton. Bydd y cyfyngiad pwysau ar bont y B5070 yn y Waun yn cael ei atal dros dro tra bo'r gwaith yn cael ei wneud.

ii. gosod terfyn cyflymder o 50 mya, 40 mya, 30 mya neu 10 mya ar y darn o'r A5 a ddisgrifir uchod. Dim ond pan fydd gwaith confoi yn digwydd y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 1 Medi 2021. Disgwylir i'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro weithredu dros nos (19:00 - 06:00 awr) yn ysbeidiol o 1 Medi 2021 am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Bydd hysbysiad am yr holl waith sy'n cael ei wneud yn ystod y cyfnod hwn yn cael ei arddangos cyn i'r gwaith ddechrau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

THE A5 TRUNK ROAD (CHIRK BYPASS, WREXHAM COUNTY BOROUGH) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS & RESTRICTIONS) ORDER 2021

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A5 trunk road at Chirk Bypass, Wrexham.

The effect of the Order is to temporarily:

i. prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the works), cyclists and pedestrians from proceeding along the length of the Chirk Bypass between the Wales/England border and Halton Roundabout.

The alternative route for northbound traffic from Gledrid Roundabout will be via the northbound B5070 Chirk Road and eastbound A5 to re-join the trunk road at Halton Roundabout: vice versa for southbound traffic from Halton Roundabout. The weight restriction on the B5070 bridge at Chirk will be suspended whilst works are undertaken.

ii. impose a 50 mph, 40 mph, 30 mph or 10 mph speed limit on the length of the A5 described above. The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted at such times.

The Order comes into force on 1 September 2021. The temporary prohibitions and restrictions are expected to operate overnight (19:00 – 06:00 hours) on an intermittent basis from 1 September 2021 for a maximum duration of 18 months. Notice of all works being undertaken during this period will be displayed prior to their commencement.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government